**Adnabod rhifau**

Dewiswch un rhif ar gyfer yr wythnos, e.e. 2.

Anogwch eich plentyn i chwilio am y rhif hwn drwy'r amser.

- Ydy'ch plentyn yn gallu gweld y rhif 2 rhywle?

| | |
|---|---|
| **gartref** | - yn y gegin |
| | - ar dudalennau llyfr |
| **yn y stryd** | - ar ddrysau |
| | - ar rifau cofrestru ceir |
| | - ar y bysus |
| **tra'n siopa** | - ar dil y siop |
| | - ar y silffoedd |
| | - mewn ffenestri siopau |


- Dowch o hyd i ddau o'r rhain, afal, tegan, llwy, gwelltyn, losin etc.
- Gwnewch batrymau e.e dwy gyllell, dwy fforc, dwy lwy, dwy gyllell, dwy fforc, dwy lwy …
- Beth am ymarfer ysgrifennu'r rhif 2?

Dewiswch rif gwahanol bob wythnos

**Gem ddis**


Defnyddiwch ddis â dotiau ac ysgrifennwch y rhifau 1 i 6 ar ddarn o bapur (neu gallwch ddefnyddio'r anifeiliaid â rhifau arnynt ).

- Taflwch y dis. A all eich plentyn ddyfalu sawl dot sydd? Gwiriwch drwy gyfrif.
- Gofynnwch i'ch plentyn pa rif ar y papur sy'n cyfateb i'r dotiau ar y dis.




# Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

**Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn**




**Llyfryn i rieni**

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau - Derbyn 1

**Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

☐ Dweud un, dau, tri, pedwar … hyd at ddau ddeg.

☐ Cyfrif hyd at 10 eitem.

☐ Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4… hyd at 9.

☐ Defnyddio geiriau fel *mwy, llai, trymach, ysgafnach* i gymharu pethau.

☐ Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.

☐ Adio dau grÝp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).

☐ Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu.

☐ Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.

☐ Enwi siapiau fel *cylch, sgwâr, triongl, petryal, ciwb, côn* a *sffêr*.

☐ Defnyddio geiriau fel *dros, o dan, uwchben, islaw, ar, yn, nesaf at, yn ymyl* i ddisgrifio ble mae pethau.

## Y targedau


Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 10 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 5. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Cyfrif a rhoi rhifau yn eu trefn

Defnyddiwch hen gylchgronau, comics neu gardiau cyfarch. Torrwch luniau o anifeiliaid, neu unrhyw beth arall y mae gan eich plentyn ddiddordeb ynddo. Labelwch yr anifeiliaid 1 i 5.




- Shifflwch yr anifeiliaid. Rhowch yr anifeiliaid mewn trefn o 1 i 5.
- Tynnwch un anifail. Gofynnwch i'ch plentyn pa rif sydd ar goll. Ailadroddwch gyda rhifau eraill a mwy nag un rhif coll.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddweud pa rif sy'n dod cyn ac ar ôl rhif o'ch dewis chi.

Pan fydd eich plentyn yn gallu gwneud hyn, ailadroddwch gyda rhifau o 1 i 10.